

Cwestiynau a ofynnir yn aml - Cynnig Gofal Plant

Cwestiynau ar gyfer Rhieni

- C1 Pwy sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant?
- C2 Pryd bydd fy mhlentyn yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ?
- C3 Faint o ofal plant am ddim fedrai ddisgwyl ei dderbyn?
- C4 Fedrai ychwanegu at oriau y Cynnig Gofal Plant os ydw i angen mwy?
- C5 Sut ydw i'n gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant ar gyfer fy mhlentyn tair oed?
- C6 Sut ydw i'n darganfod pa ofalwyr plant a meithrinfeydd sy'n rhan o'r Cynnig Gofal Plant ?
- C7 Gai hawlio y Cynnig Gofal Plant gan fwy nag un darparwr?
- C8 Gai hawlio y Cynnig Gofal Plant gan ddarparwr sydd mewn awdurdod lleol gwahanol i'r un dwi'n byw ynddi?
- C9 Pa amseroedd o'r dydd fedrai hawlio oriau y Cynnig Gofal Plant?
- C10 Ydw i wedi fy nghyfyngu i hawlio dim ond chwe awr bob dydd o oriau o fewn y Cynnig Gofal Plant ?
- C11 Fyddai'n medru hawlio'r oriau Cynnig Gofal Plant ar y penwythnos?
- C12 Gai ddefnyddio cyllid y Cynnig Gofal Plant i dalu am ofal plant anffurfiol?
- C13 Beth fydd yn digwydd os dwi'n mynd yn anghymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant? A fyddai'n colli fy lle gofal plant?
- C14 Pa gymorth arall sydd yna ar gyfer costau gofal plant?
- C15 Does yna ddim gofalwyr plant na meithrinfeydd gyda llefydd gwag o fewn fy ardal. Be allaf wneud?
- C16 Does yna ddim llefydd gwag gan y darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg o fewn fy ardal?
- C17 Yr wyf yn chwilio am waith. Oes yna unrhyw gymorth ar gael i mi ar gyfer costau gofal plant?
- C18 Yr wyf mewn addysg lawn amser, oes yna unrhyw gymorth ar gael i mi ar

gyfer costau gofal plant?

- C19 Ble a phryd fydd y peilot ar gyfer y Cynnig Gofal Plant?
- C20 Rydych yn dweud y bydd y Cynnig Gofal Plant yn cael ei brofi yn awdurdod lleol X ond fydd o'n cael ei brofi yn Y [lleoliad penodol o fewn yr awdurdod]
- C21 A fyddaf yn gymwys i gymryd rhan ym mheilod y Cynnig Gofal Plant a sut ydw i'n gwneud cais?
- C22 Rwy'n byw mewn ardal beilot, a fyddai'n gymwys i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant??

C1. Pwy sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant?

Bydd y Cynnig Gofal Plant ar gael i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 a 4 oed. Os ydych yn byw mewn ardal beilot ddynodedig, byddwch yn gymwys os ydych yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr ar isafswm cyflog cenedlaethol/cyflog byw cenedlaethol.

C2. Pryd bydd fy mhlentyn yn gymwys am y Cynnig Gofal Plant?

Bydd eich plentyn yn gymwys i gael gofal plant am ddim o'r tymor sy'n dilyn ei trydydd pen-blwydd. Bydd y gofal plant am ddim yn parhau tan y mis Medi ar ôl i'ch plentyn gyrraedd pedair oed.

C3. Faint o ofal plant am ddim fedrai ddisgwyl i dderbyn?

Bydd rhieni cymwys yn derbyn 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am ddim am 48 wythnos y flwyddyn. Yn ystod y tymor, bydd y 30 awr yn cynnwys o leiaf deg awr o addysg y Cyfnod Sylfaen a bydd y gweddill yn ofal plant. Gall yr union gymysgedd amrywio'n lleol ac ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn academiaidd. Y tu allan i'r tymor ysgol, bydd y 30 awr gyfan yn ofal plant.

C4. Fedrai ychwanegu at oriau y Cynnig Gofal Plant os ydw i angen mwy?

Medrwch. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi dalu am unrhyw oriau ychwanegol eich hun a bydd hyn yn gontract preifat rhyngoch chi a'ch darparwr gofal plant. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer gofal plant Di-Dreth ar gyfer unrhyw oriau ychwanegol y byddwch yn dewis eu prynu.

C5. Sut ydw i'n gwneud cais am y Cynnig Gofal Plant ar gyfer fy mhlentyn tair oed?

Mae system gymhwyster y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd mwy o wybodaeth ar sut i wneud cais am y cynnig ar gael yn nes at yr amser.

Os hoffech chi i wybod pa gymorth gofal plant arall sydd ar gael yn eich ardal, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol.

C6. Sut ydw i'n darganfod pa ofalwyr plant a meithrinfeydd sy'n cynnig y Cynnig Gofal Plant?

Mae'r cynnig gofal plant ar gyfer Cymru yn dal i gael ei ddatblygu. Bydd rhagor o wybodaeth am sut i gael gwybod pa ddarparwyr fydd yn darparu'r cynnig ar gael maes o law. Os hoffech chi i wybod pa gymorth gofal plant arall sydd ar gael yn eich ardal, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol.

C7. Gai hawlio y Cynnig Gofal Plant gan fwy nag un darparwr?

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn dal i gael ei ddatblygu. Bydd rhagor o wybodaeth am sut i gymryd mantais o'r cynnig ar gael maes o law. Os hoffech chi i wybod pa gymorth gofal plant arall sydd ar gael yn eich ardal, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol.

C8. Gai hawlio y Cynnig Gofal Plant gan ddarparwr sydd mewn awdurdod lleol gwahanol i'r un dwi'n byw ynddi?

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn dal i gael ei ddatblygu. Bydd rhagor o wybodaeth am sut i gymryd mantais o'r cynnig ar gael maes o law. Os hoffech chi i wybod pa gymorth gofal plant arall sydd ar gael yn eich ardal, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol.

C9. Pa amseroedd o'r dydd fedrai hawlio oriau y Cynnig Gofal Plant?

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn dal i gael ei ddatblygu. Bydd rhagor o wybodaeth am sut i gymryd mantais o'r cynnig ar gael maes o law.

C10. Ydw i wedi fy nghyfyngu i hawlio dim ond chwe awr bob dydd o oriau o fewn y Cynnig Gofal Plant?

Na, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fod mor hyblyg â phosib gyda'r oriau a ariennir. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu'r Cynnig Gofal Plant a byddwn yn ystyried sut bydd yr oriau yn cael ei defnyddio..

C11. Fyddai'n medru hawlio y Cynnig Gofal Plant ar y penwythnos?

Byddwch, ond dim ond os yw eich darparwr gofal plant yn cynnig y gwasanaeth hwn. Bydd yr elfen Cyfnod Sylfaen o'r Cynnig Gofal Plant yn parhau i gael ei gynnig rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn unig.

C12. Gai ddefnyddio cyllid y Cynnig Gofal Plant i dalu am ofal plant anffurfiol?

Na. Dim ond ar gyfer talu am y gofal a ddarperir drwy leoliadau gofal plant cofrestredig gellir defnyddio y Cynnig Gofal Plant. Gall y rhain fod yn warchodwyr plant; meithrinfeydd dydd; cylchoedd chwarae; darpariaeth cyn-ysgol ac ysgolion meithrin. Ni all y cyllid gael ei ddefnyddio i dalu am ofal plant anffurfiol a ddarperir gan neiniau a theidiau, perthnasau eraill neu ffrindiau teulu agos.

C13. Beth fydd yn digwydd os dwi'n mynd yn anghymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant? A fyddai'n colli fy lle gofal plant?

Mae'r cynnig gofal plant ar gyfer Cymru yn dal i gael ei ddatblygu, gan gynnwys manylion ynghylch sut y byddwn yn asesu cymhwyster ar gyfer y cynnig a'r cyfnodau gras fydd yn bodoli petai eich amgylchiadau yn newid. Bydd y wybodaeth hon ar gael yn fuan.

C14. Pa gymorth arall sydd yna ar gyfer costau gofal plant?

Yn ychwanegol i'r 30 awr o ofal plant am ddim i blant tair a phedair oed drwy'r Cynnig Gofal Plant, gall rhieni sy'n gweithio hefyd yn derbyn cefnogaeth gyda chostau gofal plant drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth. Mae'r cynllun yma yn cael ei gyflwyno o fis Chwefror 2017 gyda rhieni'r plant ieuengaf yn gallu gwneud cais yn gyntaf. Bydd yr holl rieni cymwys yn gallu ymuno â'r cynllun erbyn diwedd 2017.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gweithredu elfen gofal plant y credyd treth gwaith, sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i rieni hawlio hyd at 70% o'u costau gofal plant (hyd at uchafswm cost o £ 532.29 y mis am un plentyn a £ 912.50 y mis ar gyfer dau neu fwy plant); bydd hyn yn cynyddu i 85% gyda dyfodiad y Credyd Cynhwysol.

Os ydych yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg, byddwch yn gallu manteisio ar ofal plant am ddim o ansawdd i blant dwy oed am ddwy awr-a-hanner y dydd, bum diwrnod yr wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. Yn ogystal, dylai fod o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth ar gyfer y teulu yn ystod gwyliau'r ysgol. Gall Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich awdurdodau lleol ddweud wrthyich os ydych yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg.

C15. Does yna ddim gofalwyr plant na meithrinfeydd gyda llefydd gwag o fewn fy ardal. Be allaf wneud?

Mae gan eich awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiadau o anghenion gofal plant y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, ac i sicrhau darpariaeth ddigonol o ofal plant ar gyfer plant hyd at 14 oed, cyn belled ag y bo'n ymarferol. Os ydych yn cael trafferth dod o hyd i feithrinfa neu warchodwr plant sy'n cynnig yr oriau gofal plant a ariannwyd yna cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn eich awdurdod lleol. Byddant yn eich rhoi mewn cysylltiad â'r holl ddarparwyr yn eich ardal a bydd yn caniatáu iddynt adeiladu dadansoddiad mwy deallus o fylchau yn y ddarpariaeth o fewn eich cymuned.

C16. Does yna ddim llefydd gwag gan y darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg o fewn fy ardal?

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich awdurdod lleol yn cadw manylion yr holl ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg yn eich ardal. Os nad oes gan eich darparwr cyfrwng Cymraeg dewis cyntaf unrhyw lefydd gwag, byddant yn gallu awgrymu dewis arall yn eich ardal. Mae gan eich awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiadau o anghenion gofal plant y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, ac i sicrhau darpariaeth ddigonol o ofal plant ar gyfer plant hyd at 14 oed, cyn belled ag y bo'n ymarferol. Os ydych yn cael trafferth dod o hyd i feithrinfa neu warchodwr plant sy'n cynnig yr oriau gofal plant a ariannwyd yna cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn eich awdurdod lleol. Byddant yn eich rhoi mewn cysylltiad â'r holl ddarparwyr yn eich ardal a bydd yn caniatáu iddynt adeiladu dadansoddiad mwy deallus o fylchau yn y ddarpariaeth o fewn eich cymuned.

C17. Yr wyf yn chwilio am waith. Oes yna unrhyw gymorth ar gael i mi ar gyfer costau gofal plant?

Os ydych ar hyn o bryd allan o waith ac yn cael anawsterau cael mynediad i hyfforddiant neu gyflogaeth oherwydd gofal plant, efallai y byddwch yn gallu cael cymorth drwy raglen Rhieni, Gofal Plant a Cyflogaeth (PaCE) Llywodraeth Cymru.

Mae PaCE yn gweithredu ym mhob ardal awdurdodau lleol ar wahân i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn atal dyblygu gwasanaethau (mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf mae C4W yn darparu gwasanaeth cyfatebol). Y nod yw y bydd cymorth unigol a ddarperir gan ymgynghorwyr cyflogaeth rhieni yn y gymuned yn helpu dros 1,500 o rieni ledled Cymru i fynd i mewn i gyflogaeth gynaliadwy. Bydd llawer mwy yn gwirfoddoli a chwblhau hyfforddiant a phrofiad gwaith fydd yn cynyddu eu cyfleoedd o symud i mewn i waith, gan helpu'r teuluoedd hynny ddod o hyd i ffordd allan o dlodi. Os hoffech gysylltu ag ymgynghorydd cyflogaeth PaCE, yna e-bostiwch y tîm PaCE: pace@cymru.gsi.gov.uk.

C18. Yr wyf mewn addysg llawn amser. Oes yna unrhyw gymorth ar gael i mi ar gyfer costau gofal plant?

Mae'n bosib i fyfyrwyr Addysg Uwch hawlio grant gofal plant ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso. Cewch wybod mwy ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae'n bosib i fyfyrwyr Addysg Bellach sy'n astudio yng Nghymru hawlio cymorth gyda chost gofal plant o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Cewch fwy o wybodaeth o swyddfa Cymorth i Fyfyrwyr yn y sefydliad lle'r ydych yn astudio.

C19. Lle a phryd fydd y peilot ar gyfer y Cynnig Gofal Plant?

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant fod chwe awdurdod lleol wedi cael eu dewis i weithio gyda Llywodraeth Cymru i dreialu'r cynnig Gofal Plant newydd. Bydd prosiectau sy'n cynnig 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yr wythnos am ddim i blant 3 a 4 oed yn cael ei dreialu o fis Medi 2017 mewn lleoliadau penodol o fewn Gwynedd, Ynys Môn, Sir y Fflint, Abertawe, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf. Bydd Gwynedd ac Ynys Môn yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect ar y cyd.

C20. Rydych yn dweud y bydd y Cynnig Gofal Plant yn cael ei brofi yn awdurdod lleol X ond fydd o'n cael ei brofi yn Y [lleoliad penodol o fewn yr awdurdod]?

Er y bydd X yn treialu'r cynnig gofal plant, i gychwyn bydd y cynnig ar gael mewn ardaloedd penodol o'r awdurdod lleol gan mae'r bwriad yw profi os yw'n gweithio, cynhwysedd y sector gofal plant, nifer y rhieni sy'n manteisio a'r effaith ar gyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar. Byddwn yn gweithio gyda X i benderfynu ar yr ardaloedd penodol yma yn ystod y misoedd nesaf ac yn gobeithio bod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad ffurfiol erbyn diwedd mis Mawrth.

C21. A fyddaf yn gymwys i gymryd rhan ym mheilot y Cynnig Gofal Plant a sut ydw i'n gwneud cais?

Os ydych yn byw mewn ardal beilot y Cynnig Gofal Plant, bydd eich plentyn yn gymwys ar yr amod eu bod yn yr oedran cywir a bod y ddau riant (neu rieni sengl mewn cartref rhiant unigol) yn gallu profi drwy eu henillion eu bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Os ydych yn byw mewn ardal beilot, bydd eich awdurdod lleol, a'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) lleol, hefyd yn cynnig rhagor o wybodaeth am yr ardaloedd peilot ar broses ymgeisio wrth i ni symud tuag at y cynlluniau peilot o fis Medi 2017.

C22. Rwy'n byw mewn ardal beilot, a fyddai'n gymwys i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant?

Os ydych yn byw mewn ardal beilot, bydd eich awdurdod lleol yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am y cynlluniau peilot a'r broses ymgeisio yn fuan. Bydd eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) lleol hefyd yn gallu eich helpu chi.